ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Diwygio)(Cymru) a Rheoliadau Awdurdodau Lleol Trefniadau Amgen (Diwygio)(Cymru) 2004

Bu'r Pwyllgor yn ystyried *Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau)(Diwygio)(Cymru) a Rheoliadau Awdurdodau Lleol Trefniadau Amgen (Diwygio)(Cymru) 2004* yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2004.

Cafodd y materion canlynol eu codi gan y Pwyllgor:

- *Mae gosod contractau ar gyfer Adfer Cerbydau yn fater i'r cyngor llawn. A oes unrhyw fathau eraill o gontractau sy'n rhaid i'r cyngor llawn eu hystyried?*
- *Er bod y rheoliadau yn datgan y dylai'r pwyllgorau trwyddedu gynnwys y cyngor llawn, dylid ystyried a ddylai'r polisi trwyddedu hefyd fod yn fater i'r cyngor llawn.*

Mewn ymateb gwnaed y pwyntiau canlynol:
- *Cytunodd swyddogion i egluro a oedd mathau eraill o gontractau yn fater i'r cyngor llawn;*
- *Nid yw'r polisi trwyddedu yn cael ei gynnwys o dan y rheoliadau hyn.*

Roedd y Pwyllgor yn argymell y dylid cymeradwyo'r rheoliadau heb eu diwygio.

Ann Jones AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus